

ATHRAWON CYMRU

Rhifyn 59 Tymor yr Haf 2018



RHODDODD cynhadledd yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU): adran yr NUT neges glir i Lywodraeth Cymru ynghylch datganoli cyflogau ac amodau i Gymru. Cafodd penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymgynghori'n flynyddol ynghylch cyflogau athrawon ei feirniadu'n hallt, ac felly hefyd yr opsiwn i wneud hynny drwy gorff adolygu yn hytrach na thrwy gydfargeinio. Galwodd y gynhadledd ar y Prif Weinidog i anrhydeddu ei ddatganiad bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo'n llwyr i gydfargeinio yn ehangach. Galwodd y gynhadledd hefyd am sicrhau bod cyflogau athrawon ar yr un lefel â chyflogau yn Lloegr, ynghyd ag am greu strwythur cyflog cenedlaethol i athrawon ac uwch arweinwyr.

Llun gan Kois Miah

Colli 300,000 o ddiwrnodau addysgu oherwydd straen

MAE ymchwil a gynhaliwyd gan NEU Cymru (Adran NUT) yn dangos bod y pwysau sydd ar y proffesiwn addysgu wedi arwain at gollu dros 300,000 o ddiwrnodau addysgu oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â straen ers 2012.

Yn ogystal â'r niwed i iechyd meddwl athrawon unigol a'r effaith ar barhad addysgu yn sgil diwrnodau sy'n cael eu colli, mae'r Undeb yn amcangyfrif bod y baich ariannol i'r sector yn fwy na £42 miliwn.

Mae'r ffigurau, a gasglwyd drwy geisiadau rhyddid gwybodaeth, yn dangos bod cyfanswm o 51,905 o ddiwrnodau wedi'u colli rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2017. Dyma'r ffigurau uchaf mewn blwyddyn galendr ers dechrau cadw golwg ar y ffigurau yn 2012.

Gwelodd 15 o'r 22 awdurdod lleol

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o waethgu yn sgil y problemau cyllido y mae ein hysgolion yn eu hwynebu.

yng Nghymru gynnydd cyffredinol mewn absenoldeb salwch yn gysylltiedig â straen dros y 12 mis diwethaf.

Darlun damniol o amodau gwaith
Dywedodd David Evans, Ysgrifennydd

Cymru NEU Cymru (Adran NUT): "Wrth gyhoeddi'r ffigurau hyn bob blwyddyn, mae'n atgof rhwystredig o'r pwysau sy'n wynebu'r proffesiwn addysgu.

"Mae'r ffaith ein bod wedi cyrraedd carreg filltir ddieisiau wrth gollu dros 300,000 o ddiwrnodau addysgu oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â straen yn creu darlun damniol o amodau gwaith y rheini sy'n darparu addysg ar lawr gwlad yng Nghymru.

"Y pryder mwyaf yw bod yr ystadegau hyn yn debygol o waethgu yn sgil y problemau cyllido y mae ein hysgolion yn eu hwynebu. Byddwn yn trafod y ffigurau hyn yn uniongyrchol ag Ysgrifennydd y Cabinet ac yn galw am gymryd camau ar unwaith i roi gwell cefnogaeth i weithwyr addysg proffesiynol."

Newyddion

Gohirio cynhadledd Cymru yn sgil eira

BU'N rhaid gohirio cynhadledd flynyddol gyntaf NEU Cymru (Adran NUT) oherwydd yr eira ym mis Mawrth.

Roedd y materion i'w trafod yn cynnwys newidiadau i'r cwricwlwm, baich gwaith a datganoli cyflogau ac amodau, a'r disgwyl oedd y byddai'r gynhadledd yn rhoi sylfaen ar gyfer creu polisiau'r Undeb dros y blynyddoedd i ddod.

Rydym yn falch o ddweud y bydd y gynhadledd yn cael ei hail-drefnu ac y bydd yn cael ei chynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd y dyddiad a'r lleoliad yn cael eu cadarnhau cyn hir.

Rhybuddio'r llywodraeth am argyfwng cyllido 'tawel'

MAE Llywodraeth Cymru wedi cael ei rhybuddio am argyfwng 'tawel' wrth gyllido addysg.

Wrth siarad â'r BBC, dywedodd Neil Foden, aelod Gweithredol adran yr NUT: "Pan fydd argyfwng yn y gwasanaeth iechyd, mae'n aml yn rhywbeth amlwg sy'n cael llawer o sylw.

"Gwaetha'r modd, mae lluniau o ambiwlansys yn ciwio y tu allan i adrannau argyfwng yn gyfarwydd iawn i bobl bellach. Ond mae argyfwng tawel yn y byd addysg hefyd."

Dywedodd bod rhai ysgolion uwchradd wedi dechrau ystyried defnyddio staff heb gymhwyso i wneud iawn am amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu.

"Pe bai rhieni yn sylweddoli bod eu plant i bob diben yn cael eu gwarchod, yn hytrach na'u dysgu, am gyfnod sy'n cyfateb i fis ym mhob blwyddyn academaidd, byddai'n argyfwng go iawn.

"Ond nid ydyn nhw'n gwybod am hyn, a dyna pam ei fod yn argyfwng cudd. Dim ond pan welwn ni ddirywiad go iawn mewn safonau, yn dilyn canlyniadau arholiadau, neu pan fydd rhieni'n dechrau sylweddoli bod eu plant mewn dosbarthiadau o 32, 33, 34 neu 35 o blant, y bydd hyn yn dod yn amlwg."



Dyddiadau i'ch dyddiadur

HYFFORDDIANT I GYNRYCHIOLWYR

Mae cyrsiau hyfforddiant un-diwrnod a thri-diwrnod yr Undeb i bob cynrychiolydd ysgol – yn newydd a hen – yn rhoi'r adnoddau a'r hyder ichi wneud gwir wahaniaeth i fywydau aelodau.

Uwch

11-13 Mehefin – Gwesty'r Bear, y Bont-faen.

Sylfaen

18-20 Mehefin – The Village Hotel, Abertawe.

Cyfraith cyflogaeth

2 Gorffennaf – The Village Hotel, Abertawe.

■ Os oes diddordeb gennych mewn bod yn gynrychiolydd ysgol a mynd ar un o'r cyrsiau uchod, cysylltwch â Lisa Williams yn swyddfa NEU Cymru (Adran NUT).

I gael rhagor o wybodaeth am ein holl gyrsiau hyfforddi a datblygu proffesiynol, ac i gadw lle, ewch i [teachers.org.uk/learning](https://www.teachers.org.uk/learning)

HYFFORDDIANT I ATHRAWON

Cwrs Cymraeg Rhan 3 i Ddechreuwyd 12-13 Mai – Future Inn, Caerdydd.

Dechrau'n Dda

Rheoli ymddygiad i Athrawon Newydd Gymhwyso.

10 Gorffennaf – Future Inn, Caerdydd.

■ I fynd ar unrhyw un o'r cyrsiau uchod, anfonwch e-bost at beth.roberts@neu.org.uk

Cadwch olwg ar eich e-bost i weld gwybodaeth am y cyfleoedd hyfforddiant diweddaraf.

Hoffwch ni ar Facebook: [facebook.com/neucymrutraining](https://www.facebook.com/neucymrutraining)

Dilynwch ni ar Twitter: [@neucymrutrain](https://twitter.com/neucymrutrain)

NEU Cymru (Adran NUT) yn gwneud ceisiadau llwyddiannus am fwy o arian hyfforddiant

MAE NEU Cymru (Adran NUT) unwaith eto wedi bod yn llwyddiannus wrth gael gafael ar arian o Gronfa Ddysgu Undebau Cymru.

Mae'r Undeb yn bwriadu parhau i roi sylw i bedwar maes sy'n flaenoriaeth:

■ hyrwyddo dysgu'r Gymraeg i athrawon ledled Cymru drwy ddatblygu rhaglen bwrpasol ar eu cyfer;

■ hyrwyddo datblygiad dysgu sy'n cael ei arwain gan yr Undeb ymhlith athrawon llanw ledled Cymru, gyda phwyslais ar sgiliau TG hanfodol;

■ rhoi rhaglen gymorth benodol a chynhwysfawr i athrawon llanw ac athrawon allan o waith;

■ a hyrwyddo a chefnogi datblygiad dysgu

gydol oes i athrawon, gyda phwyslais ar ofal a llesiant.

"Bydd Beth Roberts, a benodwyd yn gydlynnydd i'r prosiect yn 2016, yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth ddysgu NEU Cymru (Adran NUT).

Meddai Stuart Williams, Prif Swyddog NEU Cymru (Adran NUT): "Rwyf wrth fy modd ein bod wedi bod yn llwyddiannus gyda'n trydydd cais i'r Gronfa. NEU Cymru (Adran NUT) yw'r unig undeb addysg yng Nghymru sy'n cael arian o'r gronfa hon, ac mae hynny'n golygu y gallwn barhau i sicrhau y bydd aelodau'r NEU yng Nghymru yn cael y gefnogaeth a'r hyfforddiant gydol oes y mae eu hangen arny'n nhw."

Cyfle i aelodau arbed arian

YN Y cyfnod economaidd anodd hwn, mae defnyddio cerdyn Countdown yn ffordd syml ac effeithiol o arbed rhywfaint o arian bob dydd.

Mae'r cerdyn – sef un o'r buddion niferus sy'n dod yn sgil bod yn aelod o'r NEU – yn cynnig gostyngiadau a chynllun gwobrwyo ym miloedd o siopau'r stryd fawr, yn ogystal â gwyliau, diwrnodau allan, cyfleoedd i gadw'n heini a sawl peth arall.

Mae'r busnesau sy'n cymryd rhan yn cynnwys Alton Towers, ASDA, B&Q, Boots, Comet,

Halfords, Odeon Cinemas, Pizza Express, Sainsbury's, Ticketmaster, Vision Express, Wallis a nifer o rai eraill.

Mae cannoedd o siopau a gwasanaethau lleol hefyd yn cynnig gostyngiadau – o'ch bwyty Indiaidd lleol i'ch siop flodau ar y stryd fawr.

Fel aelod o'r NEU, bydd modd ichi arbed arian sylweddol, heb ddim pwyntiau i'w casglu, dim ond arbedion hyblyg bob tro y byddwch chi'n defnyddio eich cerdyn. I gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i countdowncard.com



Neil Foden yn cyflwyno gweithdy yn y Gynhadledd Athrawon Ifanc

Gweithdai 'gwy' i athrawon ifanc

DAETH athrawon o bob cwr o Gymru i Gynhadledd Athrawon Ifanc De Cymru yng Ngwesty'r Vale, Hensol, ym mis Ionawr.

Ar y nos Wener, bu Laura Chisholm, Swyddog Athrawon Ifanc yn Portsmouth ac aelod o Fforwm Drefnu Genedlaethol yr Athrawon Ifanc, yn cynnal sesiwn er mwyn dangos sut i fanteisio i'r eithaf ar yr Undeb.

Y bore wedyn, roedd gan y cynrychiolwyr ddewis o weithdai a'r rheini'n cynnwys gweithdy ar ennyn diddordeb disgyblion a gwella sgiliau llythrennedd, wedi'i arwain gan Helen

Bowen, ymgynghorydd llythrennedd gyda Llywodraeth Cymru; neu weithdy ar reoli baich gwaith, a'r hyn sy'n rhesymol i'r Pennaeth ofyn ichi ei wneud, wedi'i arwain gan Neil Foden, sy'n bennaeth ei hun ac yn aelod Gweithredol o adran yr NUT.

Ar ôl egwyl am baned, roedd dewis o ragor o weithdai, sef sut i groesawu ac ymdopi ag arolygiadau dan arweiniad Helen Bowen, sydd hefyd yn arolygydd Estyn, a gweithdy ar sut i wella eich sgiliau er mwyn datblygu eich gyrfa, dan arweiniad Neil Foden.

Meddai Geraint Williams o Goleg Dewi Sant, Caerdydd: "Am gynhadledd ragorol. Roedd cael dewis o weithdai yn wych, a chafodd pawb a oedd yno fudd mawr ohonyn nhw.

"Roedd sgysiaau Neil a Helen yn rhoi llawer iawn o wybodaeth, ynghyd â phob math o adnoddau a syniadau defnyddiol."

■ Os hoffech chi fynd i Gynhadledd Athrawon Ifanc yn y dyfodol, cysylltwch â Lisa Williams yn swyddfa NEU Cymru (Adran NUT) drwy anfon e-bost at lisa.williams@neu.org.uk

Yma i helpu

FEL yr undeb athrawon mwyaf, mae modd i NEU Cymru (Adran NUT) roi gwasanaeth heb ei ail i'w aelodau.

Mae ein tîm proffesiynol yma i roi arbenigedd i'n rhwydwaith o gynrychiolwyr mewn ysgolion a cholegau ac i ysgrifenyddion cymdeithasau ac adrannau lleol.

Os oes gennych chi broblem yn y gwaith neu i gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau i aelodau, cysylltwch â'r canlynol:

- eich cynrychiolydd yn yr ysgol neu'r coleg;
- ysgrifennydd eich cymdeithas neu'ch adran;
- Swyddfa NEU Cymru (Adran NUT).

NEU CYMRU (Adran NUT)

Ty Sinnott, 18 Neptune Court,
Vanguard Way, Caerdydd CF24 5PJ
Ffôn: 029 2049 1818
Ffacs: 029 2049 2491
E-bost: cymru.wales@neu.org.uk

Ysgrifennydd Cymru: David Evans
Swyddogion Cymru: Gareth Lloyd, Debbie Scott, Dilwyn Griffiths
Prif Swyddog – Trefnu a Chyfathrebu: Stuart Williams
Trefnydd y Gogledd: Cai Jones
Cyfreithiwr Cymru: Angharad Booker
Swyddog Polisi Cymru: Owen Hathway
Aelodau Gweithredol: Neil Foden, Angela Jardine, Beth Davies

PRIF SWYDDFA

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol:
Adran yr NUT, Hamilton House,
Mabledon Place, Llundain WC1H 9BD
Ffôn: 020 7388 6191
Ffacs: 020 7387 8458
Gwefan: www.neu.org.uk
Llywydd: Kiri Tunks
Cyd-ysgrifennydd Cyffredinol:
Kevin Courtney



Gwario £170 o arian personol ar gostau dosbarthiadau

MAE arolwg o aelodau'r NEU yng Nghymru wedi dangos effaith frawychus toriadau cyllido ar ysgolion.

Mae'r ffigurau wedi dangos bod athrawon ar gyfartaledd yn gwario £170 o'u harian eu hunain bob blwyddyn i dalu am gostau adnoddau i'r ystafell ddosbarth a'r ysgol, adnoddau na fyddai fel arall yn cael eu prynu.

Mae'r rhain yn cynnwys pinau ysgrifennu, pensiliau, offer cyfrifiadurol, teithiau, pethau ymolchi a dodrefn.

Yr amcangyfrif yw y byddai'r cyfartaledd hwn yn filiynau o bunnoedd ar draws yr holl broffesiwn. Dyma rai o'r ffigurau:

- Dywedodd 98 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi prynu rhywbeth i ddisgybl, eu hystafell ddosbarth neu'r ysgol gan ddefnyddio'u harian eu hunain;
- O'r pethau hynny, ystyriwyd bod 79 y cant yn adnoddau angenrheidiol;
- Cyfartaledd y gwariant oedd £170 gydag athrawon yn gwario dros £999 ar dri achlysur.

Dyma rai o'r sylwadau:

- "Rydyn ni'n derbyn yn gyffredinol ein bod yn prynu adnoddau heb hawlio arian yn ôl."
- "Mae gofynion y cwricwlwm, ar y cyd â

Mae 98% o athrawon yn dweud eu bod wedi prynu rhywbeth i ddisgybl, eu hystafell ddosbarth neu eu hysgol. Mae'r adnoddau hyn yn amrywio o binâu ysgrifennu i ddodrefn.

phwysau cyllido, ond golygu fy mod yn teimlo y bydd y plant rwy'n eu dysgu ar eu colled os na fyddaf yn gwario fy arian fy hun."

■ "Rwy'n gwario fy arian fy hun ar adnoddau y mae eu hangen yn yr ysgol, ond mae gen i hefyd swydd ran amser ar benwythnosau a gyda'r nos er mwyn cael arian ychwanegol."

Meddai Owen Hathway, Swyddog Polisi Cymru: "Mae'n ddychryn bod athrawon a rhieni, sydd eisoes wedi talu am addysg drwy eu trethi, yn gorfod mynd i'w pocedi dim ond er mwyn sicrhau bod modd i ysgolion brynu'r darpariaethau mwyaf sylfaenol. Mae hynny'n rhoi darlun go ddamniol o'r dull a welsom o gyllido addysg dros y blynyddoedd."

"Mae pawb am gael system addysg o'r radd flaenaf yng Nghymru ond allwn ni ddim parhau i wneud y cynnydd a welsom yn y blynyddoedd diwethaf pan fydd y buddsoddiad ariannol mor wael."

Athrawon dan hyfforddiant yn paratoi i ddangos y cerdyn coch i hiliaeth

DAETH dros 700 o fyfyrwyr blwyddyn olaf ynghyd i drafod pynciau'n ymwneud â hiliaeth yng nghynadledau Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ym mis Chwefror.

Yn dilyn llwyddiant blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd cynadledau i fyfyrwyr ym mhump o'r chwe phrifysgol sy'n hyfforddi athrawon yng Nghymru – Prifysgol De Cymru Casnewydd; Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; Caerfyrddin, Aberystwyth a Bangor – a hynny gyda chymorth ariannol gan NEU Cymru (Adran NUT).

Dysgodd myfyrwyr ar gyrsiau BA (SAC), y Rhaglen Athrawon Gradedig a TAR sut i ddelio â hiliaeth a sut i ddysgu disgyblion pam fod hiliaeth mor niweidiol yn ystod gwersi ABCh.

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn eich ysgol chi
Roedd cyfle i ofyn cwestiynau, trafod y



Un o swyddogion addysg Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin

termau cywir ac anghywir i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, mynd i weithdai ar fewnfudo a chyfle i weld sut i ddefnyddio adnoddau Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

■ Os hoffech chi i elusen Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ddod i'ch ysgol chi i roi'r gweithdai hyn neu weithdai eraill, anfonwch e-bost at Sunil Patel sunil@theredcardwales.org